Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

# Dyfodol gofal canser yng Nghymru: Polisïau a chynlluniau'r gweithlu

## Crynodeb gweithredol







# Polisïau a chynlluniau'r gweithlu

Canser yw un o brif achosion marwolaethau yng Nghymru. Mae'n cyfrif am dros chwarter yr holl farwolaethau bob blwyddyn. Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, mae disgwyl i nifer y diagnosau o ganser gynyddu, gan roi pwysau sylweddol ar y system gofal iechyd. Yn hanesyddol, mae'r cyfraddau goroesi ar gyfer rhai mathau o ganser yng Nghymru wedi bod ar ei hôl hi o'i gymharu â gwledydd eraill y DU, gan dynnu sylw at yr angen am welliannau wedi'u targedu. Roedd strategaethau canser blaenorol, fel y 'Cynllun Cyflawni Canser ar gyfer Cymru (2016-2020)', yn gosod y sylfaen ar gyfer gwella gofal canser ond yn wynebu heriau wrth eu rhoi ar waith.


Y ddwy ddogfen bolisi a fydd yn llywio dyfodol gofal canser fwyaf yw 'Datganiad Ansawdd 2021 Llywodraeth Cymru ar gyfer Canser' a'r 'Cynllun Gwella Gwasanaethau Canser ar gyfer GIG Cymru 2023-2026'. Mae'r dogfennau hyn yn amlinellu nodau, themâu a chyfeiriad cyffredinol y polisi ar gyfer gofal canser yn y dyfodol agos, gyda llawer o ddarpariaethau'n amlinellu nodau gofal canser yn 2030. Mae'r 'Datganiad Ansawdd ar gyfer Canser' yn ddatganiad byr ar ganser sy'n nodi'r cyfeiriad ar gyfer dyfodol gofal canser yng Nghymru.

Roedd y priodoleddau ansawdd o'r 'Datganiad Ansawdd ar gyfer Canser' wedi cyfrannu at y 'Cynllun Gwella Gwasanaethau Canser ar gyfer GIG Cymru 2023-2026'. Cafodd y cynllun hwn ei gynhyrchu ar y cyd â'r holl randdeiliaid ac mae'n nodi'r uchelgais i Gymru wella canlyniadau i gleifion canser a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

Mae rhai o'r themâu allweddol a nodir yn y cynllun yn cynnwys pwyslais ar atal, diagnosis cynnar, mynediad teg at ofal, gofal sy'n canolbwyntio ar y claf, datblygu'r gweithlu, arloesi ac ymchwil, gan ganolbwyntio'n benodol ar optimeiddio iechyd digidol ac AI, cydweithio ac integreiddio, a chanlyniadau gwell yn y pen draw.







Er bod gweithlu GIG Cymru wedi bod yn tyfu, nid yw'r gweithlu'n ddigon mawr o hyd i ateb y galw. Roedd cyfrifiad gweithlu oncoleg glinigol diweddaraf Coleg Brenhinol y Radiolegwyr wedi datgelu bod diffyg o 12% o oncolegwyr clinigol. Ym mis Mehefin 2021, buddsoddodd GIG Cymru dros £25mn mewn offer delweddu newydd i wella gwasanaethau diagnostig ledled y wlad. Rydyn ni'n disgwyl y bydd cynnydd yng nghapasiti'r gwasanaeth yn y dyfodol agos, o ystyried y darpariaethau ar gyfer offer newydd yng Nghyllideb Hydref y Deyrnas Unedig.

Mae tri chyhoeddiad allweddol ynghylch cynlluniau'r gweithlu yn GIG Cymru: adran cynllunio'r gweithlu yn y 'Cynllun Gwella Gwasanaethau Canser ar gyfer GIG Cymru 2023-2026', y 'Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu: Mynd i'r Afael â Heriau Gweithlu GIG Cymru', a 'Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol'. Mae 'Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol' yn nodi saith thema allweddol a 32 o gamau gweithredu sy'n anelu at wella cyflwr gweithlu'r GIG a Gofal Cymdeithasol erbyn 2030.

Mae'r ddogfen hon yn darparu map ar gyfer datblygu gweithlu GIG Cymru, gan dynnu sylw at flaenoriaethau a chanlyniadau allweddol erbyn 2030. Y themâu allweddol yw: gweithlu sy'n ymgysylltu, yn llawn cymhelliant ac yn iach, denu a recriwtio, modelau gweithlu di-dor, adeiladu gweithlu sy'n barod yn ddigidol, addysg a dysgu rhagorol, arweinyddiaeth ac olyniaeth, a chyflenwad a siâp y gweithlu. Mae'r cynllun wedi cael ei feirniadu rywfaint am ddarparu ychydig iawn o fanylion y tu hwnt i'r ymrwymiadau gweithlu a wnaed yng nghynlluniau AaGIC.

## Eisiau gwybod mwy?

Anfonwch e-bost at helo@hwbgbcymru.com i gael yr adroddiad llawn, gan gael mynediad at fewnwelediadau, ystadegau a gwybodaeth allweddol am dirwedd canser Cymru.

## Gwybodaeth am y Sector

Mae ein tîm yn casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth am dueddiadau'r farchnad, anghenion cwsmeriaid a thirwedd ehangach y diwydiant. Mae hyn yn siapio strategaethau, yn nodi risgiau ac yn dod o hyd i gyfleoedd twf cyffrous. Mae sefydliadau comisiynu yn cynnwys busnesau bach a chanolig, byrddau iechyd, Llywodraeth Cymru, a'r byd academaidd.

## Gwybodaeth am Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru

Rydyn ni'n gyrru'r gwaith o ddatblygu a defnyddio arloesedd gwyddorau bywyd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rydyn ni'n rhyngwyneb deinamig, sy'n cysylltu arloeswyr gwyddorau bywyd â phartneriaid ymchwil, cyfleoedd cyllido, defnyddwyr a thimau iechyd a gofal cymdeithasol ar y rheng flaen i gefnogi llesiant, ac yn y pen draw, i greu twf, swyddi a ffyniant ledled Cymru.

## Sut gallwn ni eich helpu chi

E-bostiwch helo@hwbgbcymru.com i gael gwybod sut gall ein cymorth ni helpu eich arloesedd i gyrraedd y rheng flaen.

lshubwales.com/cy

helo@hwbgbcymru.com

Chwefror 2025